# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Yr Hendy

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Un o nodweddion amlycaf Ysgol Yr Hendy yw bod holl yr staff yn meithrin lles a dysgu pob disgybl yn hynod effeithiol mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chreadigol. Trwy hyn, mae gan ddisgyblion agweddau cadarn at eu dysgu lle mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae disgyblion y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn cyd-ddysgu a chyd-chwarae'n hapus ac yn falch o'u gwreiddiau Cymreig. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau llafar.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel aelodau ymroddgar o dîm. Maent yn cynllunio cwricwlwm sydd wedi ei sefydlu ar ymholi ac ymchwil sy'n cyfrannu'n gadarn at wella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol agweddau'r  cwricwlwm mewn gweithgareddau gwerthfawr, er enghraifft mewn sesiynau 'Gwener Gwych'. Mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau buddiol i ddisgyblion gyflawni eu gweithgareddau er mwyn iddynt ymgolli yn eu dysgu yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw llawer o athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y dull maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn yr amgylchedd allanol difyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth uchelgeisiol ac mae ei disgwyliadau uchel yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r broses hunanwerthuso barhaus i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn rhinwedd gref o fedrau addysgu ac arwain staff. Mae'r pennaeth yn ddiwyd wrth ddatblygu holl agweddau'r ysgol ac yn cefnogi ysgolion eraill i wella gwahanol agweddau o arweinyddiaeth, addysgu a dysgu. Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig wrth gefnogi a gwella'r ysgol dros amser ac yn falch bod yr ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol. Trwy sicrhau ffynonellau incwm ychwanegol, mae arweinwyr yn rheoli cyllid yn ddarbodus a chreadigol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y dull maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025